# CRYNODEB CYFARFOD

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfod Nos Fawrth, Medi 9fed 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Jones (is-gadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Huw Edwards, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Euros Puw.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mehefin 10fed 2025) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **gweler cais cynllunio Llwyn Mawr Canol, Parc.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – **adroddodd y clerc fod cynnig am arian ychwanegol wedi cyrraedd ar ol y cyfarfod diwethaf ac wedi ymgynghori cytunwyd i ddefnyddio'r arian i brynnu pabell gymunedol a sgrin, taflunydd a chadeiriau i Neuadd Parc. Roedd cais y Cyngor wedi bod yn llwyddianus a derbyniwyd £7,500. Gan fod stoc o'r babell yn isel bu rhaid symud yn gyflym i'w archebu a thalu amdani cyn hawlio'r arian yn nôl o'r Gronfa. Bydd y clerc yn symud ymlaen rwan i archebu'r taflunydd, sgrin ayyb.**

## iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhybudd cau'r ffordd, chyffordd Bryn Ifan i Llidiardau, ar y 11 & 16 o Fedi. **Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a swyddog Dŵr Cymru i sicrhau na fydda'r bws ysgol yn cael problemau pasio fel yn y gorffennol.**
ii) Gwahoddiad i gyfarfod Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn, Mehefin 2025.

b) Un Llais Cymru.
i) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd.
ii) Nodau Datblygu Ymarfer Diweddariedig.

c) Amrywiol.
i) Gwahoddiad i Wyl Glan-Llyn, 27/09/25.
ii) Bygythiad i gyllido elusennau sy'n darparu gofal cymdeithasol. **Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fygythiad i gyllido gofal cymdeithasol hanfodol fel hyn.**
iii) Gwahoddiad i agoriad swyddogol cae astro newydd Y Bala, 10/09/25.
iv) Cais am arosfan bws i Lanycil – **gofynnwyd i'r glerc wneud ymholiadau gyda'r adrannau perthnasol.**
v) Cylch yr Iaith – Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.
vi) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala 2025.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

NP5/72/144B - Codi garej triphlyg a gweithdy/storfa ar wahân, a gwaith cysylltiedig. Bryn Tegid, Llanycil,
NP5/72/258 - Gosod grid gwartheg. Tir ger Rhydlechog, Frongoch.
NP5/72/250J - System atal cerbydau (Rhwystr traffig). Cronfa Ddŵr Llyn Celyn, Frongoch.
NP5/72/260 - Estyniad ac addasiadau. Llwyn Mawr Canol, Parc **(Huw Edwards yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).**

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau.**

**vi) Materion Ariannol**

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau Ebrill – Mehefin). **Cymeradwywyd.**
b) Derbyniadau – ail randal y Praesept - £2,375.

c) HSBC – **cafwyd ein cynghori na fydd y banc yn codi'r ffi misol o fis Gorffennaf ymlaen.**
ch) Taliadau - cytunwyd i dalu:-
Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE, McAfee, Cyngor Gwynedd a Gala Tents.
**Cytunwyd i beidio talu anfoneb Arwchilio Cymru tan y byddant wedi egluro y ffi a godwyd.**
d) Ceisiadau Ariannol – Gofal Ganser Tenovus a Cerebral Palsy Cymru.

**<u>vii) Materion lleol.</u>**
**Nid oedd unrhyw faterion yn codi.**

## CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH HYDREF 14EG YN NEUADD PARC.